

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Freeman & Rosser

Dyddiad arolygu: 5 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gwblhau arolygiad o Ddeintyddfa Freeman & Rosser ar 5 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa Freeman & Rosser yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Freeman & Rosser yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

Mae Freeman & Rosser (sy'n rhan o Grŵp Deintyddol Portman) yn bractis deintyddol preifat sy'n cynnig ystod o wasanaethau deintyddol.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, dau hylenydd, saith nyrs (a thair ohonynt dan hyfforddiant), rheolwr practis a thri derbynnydd.

3. Crynodeb

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Neintyddfa Freeman & Rosser.

Gwnaethom arsylwi ar y dull gwresog, cyfeillgar a phroffesiynol a ddefnyddiai aelodau'r tîm deintyddol tuag at gleifion, a gwelsom y rhoddir cyfle rheolaidd i gleifion gynnig eu safbwyntiau ar y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

Gwnaethom archwilio cofnodion cynnal a chadw cyfarpar ac ystyried cyflwyniad y lleoliad deintyddol. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn rhoi pwyslais sylweddol ar iechyd a diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom sampl o gofnodion deintyddol deuddeg claf, a chynhaliom drafodaethau â'r tîm deintyddol. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod cleifion yn deall eu hopsiynau triniaeth, a'u bod wedi cytuno i barhau â'r dull a ddewiswyd cyn i'r driniaeth ddechrau. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn hyrwyddo iechyd a lles cleifion.

Gweithredwyd y gwasanaeth deintyddol dydd i ddydd yn effeithiol gan reolwr y practis ac is-reolwr a thîm o staff profiadol, brwdfrydig. Cefnogwyd y practis gan dîm llywodraethu effeithiol ym mhrif swyddfa Portman ym Mryste. O ganlyniad, roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd yr holl drefniadau iechyd a diogelwch yn diwallu'r holl safonau gofynnol
- Gwnaeth yr holl staff dderbyn hyfforddiant a diweddariadau blynyddol yn ôl y gofyn.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen ychwanegu cyfeiriad AGIC at y wybodaeth am bryderon
- Amserlenni ar gyfer datblygu ystafell ddadheintio
- Defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau, fel yr awgrymir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)
- Cadw cofnodion
- Sefydlu system i wirio'r tymheredd ar gyfer storio cyffuriau yn rheolaidd
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cyffuriau presgripsiwn eu cadw mewn amgylchedd sy'n briodol o lân.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Neintyddfa Freeman & Rosser.

Gwnaethom arsylwi ar y dull gwresog, cyfeillgar a phroffesiynol a ddefnyddiwyd tuag at gleifion gan aelodau o'r tîm deintyddol a chanfod y rhoddir cyfle rheolaidd i gleifion gynnig eu safbwyntiau ar y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 21 holiadur atom. Yn ddieithriad, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis.

Darparodd nifer o gleifion sylwadau i ni, a oedd yn cynnwys:

"Practis ardderchog. Gwasanaeth cyfeillgar iawn a phroffesiynol"

"Pe bai pob busnes deintyddol yn dilyn y practis hwn – byddai mwy o bobl yn teimlo'n gyfforddus a diogel. Y practis gorau dw i erioed wedi'i ddefnyddio yma yn y DU ac yn Ewrop"

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth yn y practis. Staff cwrtais a chyfeillgar, proffesiynol iawn. Dw i'n teimlo'n dawel fy meddwl a chyfforddus ac yn hyderus iawn gyda'r deintyddion"

"Practis deintyddol penigamp. Dw i wastad yn teimlo bod croeso a'u bod yn delio â phryderon. Fyddwn i ddim yn mynd i'r unlle arall".

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm o staff. Mae hyn oherwydd gwelsom fod y staff yn broffesiynol iawn ond yn gyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais a moesgar tuag at gleifion yn ystod galwadau ffôn ac yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb. Roedd swyddfa rheolwr ar wahân ac ardal ar wahân y tu ôl i ddesg y dderbynfa er

mwyn cynnal sgysiau cyfrinachol â chleifion. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cyfyngu ar y cyfleoedd i bobl sy'n eistedd yn yr ystafell aros glywed y sgysiau sy'n cael eu cynnal. Gwelsom hefyd fod y drws i'r ystafell driniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'i gadw ar gau yn ystod amseroedd pan oedd cleifion yn yr ystafell.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom hefyd yn dangos bod y deintyddion wedi trafod triniaeth unigol y cleifion gyda nhw.

Darparodd y practis wasanaethau deintyddol preifat ac arddangoswyd gwybodaeth am wahanol brisiau deintyddol mewn llyfr gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros.

Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd copïau ar gael yn rhwydd i'r cleifion fynd â nhw adref. Roedd yna wefan llawn gwybodaeth hefyd a ddatblygwyd gan gwmni corfforaethol. Nid oedd unrhyw wybodaeth Cymraeg ei hiaith arni ar hyn o bryd ond roedd yn faes datblygu ar gyfer y cwmni. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan gleifion fynediad at wybodaeth am y practis mewn iaith o'u dewis.

Gwnaethom drafod defnyddio arwyddion dwyieithog yn y practis, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 2016, a dywedwyd wrthym y byddai hyn hefyd yn faes ar gyfer datblygiad pellach yn y dyfodol.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Cadarnhawyd hyn trwy sylwadau a dderbyniwyd yn holiaduron AGIC a chan y tri o gleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd staff wrthym eu bod yn sicrhau eu bod yn hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu pe bai'n absennol yn annisgwyl ac y byddent yn cynnig trefniadau eraill.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn glir wrth fynedfa'r practis. Roedd y rhif hefyd wedi'i restru yn nhaflen wybodaeth i gleifion y practis ac ar y wefan. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod neges peiriant ateb y practis yn hysbysu cleifion am y rhif cywir i'w ffonio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael cyngor ynglŷn â sut i gael triniaeth mewn argyfwng pan oedd y practis deintyddol ar gau.

Cadw'n iach

Gwelsom, yn yr ardal aros, daflenni hybu iechyd y gallai'r cleifion eu cymryd adref â nhw, megis taflenni rhoi'r gorau i ysmegu, cymeriant alcohol a chanser y geg. Fodd bynnag, ni ddangosodd archwiliad o gofnodion 12 claf (pedwar o bob deintydd) fod y cleifion yn derbyn gwiriadau a chyingor i'w cefnogi i gyflawni, a chynnal, iechyd y geg da. Trafodir hyn yn hwyrach yn yr adroddiad.

Roedd arwyddion dim ysmegu yn y lleoliad i gefnogi hyrwyddo'r ddeddfwriaeth o ran amgylcheddau di-fwg.

Gofal unigol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i helpu pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad i'r lleoliad a derbyn gofal a thriniaeth mewn modd diogel. Er enghraifft, roedd yna esgynfa o'r ardal barcio i fynedfa'r practis ac, ar ôl hynny, roedd yr holl driniaethau ar y llawr daear. Roedd toiled hygyrch mawr at ddefnydd cleifion.

Gwelsom fod yna arolygon bodlonrwydd cleifion misol a bod yna lyfr sylwadau hefyd yn yr ardal aros, fel y gallai cleifion ddarparu eu sylwadau ynghylch sut roeddent yn teimlo am y gwasanaeth neu sut y gellid ei wella.

Dangosodd trafodaethau â rheolwr y practis fod y sylwadau yn yr holiaduron bodlonrwydd cleifion misol yn cael eu hanfon at y brif swyddfa ac y cafodd y canlyniadau eu dosbarthu ar ffurf graff. Rhoddwyd graffiau cyflawn i ni oedd yn gysylltiedig â'r arolwg diweddaraf a ddangosodd fodlonrwydd uchel â'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol preifat. Dywedwyd wrthym fod un gŵyn ffurfiol wedi cael ei chyflwyno gerbron y practis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethom edrych ar hon ac roeddem yn fodlon bod y practis wedi ymdrin yn briodol â hi. Roedd gweithdrefn gwyno'r practis wedi'i harddangos yn yr ardal aros ac roedd hefyd ar daflen wybodaeth y practis – fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad AGIC wedi'i gynnwys. Hefyd, cofnododd y practis bryderon anffurfiol er mwyn canfod themâu a thueddiadau, gyda golwg ar ymdrin â'r materion hyn cyn iddynt droi'n gŵynion ffurfiol. Roedd hon yn arfer nodedig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai gwybodaeth bryderon y practis gynnwys cyfeiriad AGIC yn unol â gofynion rheoliad.

Gwnaethom ofyn sut y byddai'r practis yn cynorthwyo cleifion ag anghenion ychwanegol a dywedwyd wrthym y byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu ar gyfer

diwedd sesiwn y bore neu brynhawn i ganiatáu amser ychwanegol i drafod triniaeth a chynnal preifatrwydd ac urddas unigolion.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff. Cyflawnwyd gwiriadau ac archwiliadau manwl i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol. Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella o ran dadheintio a chadw cofnodion.

Gofal diogel

Edrychom ar y cofnodion cynnal a chadw cyfarpar a gedwir yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol. Gwelwyd bod yr holl gofnodion o'r fath yn gyfredol ac yn ddilys. Gwnaethom ganfod hefyd bod gwastraff peryglus sy'n aros i gael ei waredu wedi'i gadw mewn man wedi'i gloi, er mwyn gwarchod cleifion a staff.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis. Cadarnhaodd ein harsylwadau fod amgylchedd y practis i'w weld yn lân ac yn hylan, bod digon o gyfarpar, a bod y cyfleusterau o safon dda iawn.

Gwnaethom ystyried y trefniadau glanhau a sterileiddio offer (yr hyn a adwaenir fel dadheintio) a chanfuom er nad oedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer dadheintio, fel yr amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1),¹ roedd gan y practis ddull trylwyr, sefydlog o fodloni'r agwedd hon o'r gwasanaeth. Rhoddodd y nyrs ddeintyddol ddisgrifiad llawn a boddhaol i ni o'r broses ddadheintio sydd ar waith ar hyn o bryd. Gwelsom hefyd fod yr holl broses ddadheintio wedi'i hategu gan gofnodion manwl o wiriadau diogelwch dyddiol a gwiriadau rheolaidd eraill o ran gweithredu'r cyfarpar yn effeithiol. Gwelsom fod yr offer a oedd wedi'u pecynnu a'u cadw'n barod i'w

¹ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

hailddefnyddio yn cynnwys dyddiadau 'sterileiddiwyd ar' a 'defnyddir erbyn' priodol. Mae hwn yn arfer nodedig oherwydd nid oes unrhyw ddrysych ynghylch yr adeg pan nid ystyrir bod yr offer yn sterilidd. Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau trylwyr yn ddiweddar; fodd bynnag, nid yr archwiliad awgrymedig oedd hwn a gysylltir â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1).²

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis osod amserlen ar gyfer datblygu'r ystafell ddadheintio.

Dylai'r practis ystyried defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau fel yr awgryma Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1).

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar a pherthnasol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd / dadebru brys.

Gwelwyd y cedwir cyffuriau brys yn y practis yn ddiogel ac roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn ddi-oed. Er bod cyfarwyddiadau ysgrifenedig unigol ar sut i ddefnyddio cyffuriau brys wedi'u cadw mewn bag plastig â phob cyffur priodol, gwelsom eu bod yn cael eu storio mewn blwch mawr, sy'n golygu y byddai'n rhaid i staff chwilio am y bag plastig priodol mewn argyfwng. Roedd y practis yn agored i'n hawgrym y dylid trefnu'r blwch cyffuriau er mwyn sicrhau mynediad hawdd mewn argyfwng. Dim ond un aelod o staff yn y ddeintyddfa oedd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar hyn o bryd oherwydd bod un wedi symud yn ddiweddar i chwaer-bractis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cynlluniau eisoes ar waith i alluogi aelod arall o staff i fynychu'r hyfforddiant.

Er nad oedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, canfuom fod y trefniadau cyfredol ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn unol â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant i'r

² Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

staff. Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn, yn unol â'r gofyn. Fodd bynnag, wrth archwilio cofnodion y cleifion, canfuom nad oedd y deintyddion yn cofnodi gwybodaeth ddigonol yn gyson i gyfiawnhau pam oedd neu nad oedd rhai pelydrau-X deintyddol wedi cael eu cymryd, er enghraifft mewn achos o dynnu dant. Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Roedd hyn yn golygu bod deintyddion yn gallu sicrhau bod pelydrau-X da a chllir yn cefnogi penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth cleifion.

Roedd rhywfaint o fanylion cyswllt y timau diogelu lleol o ran diogelu oedolion a phlant wedi'u cadw o fewn dogfennau polisi, er mwyn cynorthwyo staff pe bai angen adrodd ar faterion o'r fath. Roedd yna siart lif 'cipolwg' er mwyn canfod canllawiau mewn argyfwng. Gwnaethom argymhell bod rheolwr y practis yn cysylltu â'r tîm diogelu lleol i gadarnhau bod enwau cyswllt a rhifau ffôn yn gywir. Gwnaethom awgrymu adolygiad hefyd o'r polisi diogelu i sicrhau ei fod yn unol â deddfwriaeth Cymru.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu, gyda rhai unigolion wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio unrhyw nyrsys deintyddol asiantaeth.

Gofal effeithiol

Gwnaethom edrych ar sampl o 15 o gofnodion deintyddol, ond gwnaethom siarad â'r un ymarferydd deintyddol oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad yn unig. O ganlyniad, canfuom fod ansawdd y cofnodion gofal cleifion yn amrywio rhwng gwahanol ymarferwyr. Canfuom fod angen cynnwys y meysydd canlynol ym mhob cofnod claf:

- Rhaid cofnodi hanesion cymdeithasol gan gynnwys ysmegu a chymeriant alcohol
- Rhaid cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg
- Rhaid cofnodi archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg
- Rhaid rhoi cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i gleifion cyn cychwyn â'r driniaeth
- Rhaid cofnodi cydsyniad llafar ar bob ymweliad
- Rhaid cofnodi cyfiawnhad ar gyfer pelydrau-X.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wella ar gadw cofnodion yn y meysydd a amlygwyd.

Roedd y practis yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)³ o ran yr amserlenni a argymhellir ar gyfer ymweliadau ail-alw deintyddol. Roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pryd y dylai cleifion dderbyn eu hapwyntiad nesaf.

Gwnaeth y practis ddsbarthu meddyginiaeth i gleifion, megis gwrthfotigau. Gwnaethom adolygu'r modd y cedwir meddyginiaeth o'r fath a chanfod bod arwyddion o leithder yn y cwpwrdd. Yn ogystal, nid oedd cofnod o wiriadau tymheredd er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei chadw ar y tymheredd gorau posibl. Gwnaethom argymhell bod y gwiriadau hyn yn cael eu sefydlu a bod system awyru briodol yn cael ei hychwanegu at y cwpwrdd storio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sefydlu gwiriadau tymheredd rheolaidd ar gyfer cadw cyffuriau.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cyffuriau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn amgylchedd sy'n briodol o lân.

Roedd yna gofnodion electronig a phapur a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn anelu at fod yn ddi-bapur yn y dyfodol.

³ Mae canllawiau clinigol deintyddol NICE yn cynorthwyo deintyddion i benderfynu pa mor aml y dylid ail-alw cleifion rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i gleifion o bob oedran sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gweithredwyd y practis deintyddol yn effeithiol gan reolwr y practis, yr is-reolwr a thîm o staff profiadol, brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol wedi'u sefydlu yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

Mae Freeman & Rosser yn bractis sefydledig gyda 3,700 o gleifion. Agorodd yn 1989 ac ymunodd â grŵp Portman ddwy flynedd yn ôl. Mae rheolwr y practis, â chefnogaeth yr is-reolwr, yn gyfrifol am weithrediad dydd i ddydd y practis; fodd bynnag, mae gan bob aelod o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb clir am agweddau penodol o'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y ddeintyddfa yn cael ei rhedeg yn dda iawn. Roedd gweithrediad dyddiol y gwasanaeth wedi'i danategu gan ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi mewn modd diogel ac amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Roedd y practis wedi derbyn y wobwr 'Safon Aur' yn ddiweddar gan grŵp Portman mewn ymateb i archwiliadau arferion a'r system 'siopwr dirgel' o fesur gwasanaeth cwsmeriaid.

Dangosodd trafodaethau â rheolwr y practis fod lefelau salwch/absenoldeb yn isel. Roedd hyn yn lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, ac felly'n golygu bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan aelodau tîm a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Dywedodd y staff nyrsio deintyddol y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod nhw, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd lle y cânt gyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ddeintyddfa, a oedd yn amlygu'r pynciau/materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm. Gwnaeth trafodaethau â staff hefyd ddangos eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau dydd i ddydd am weithrediad y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel aelodau o'r tîm deintyddol.

Wrth archwilio dwy ffeil staff, gwelwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn 2015 a oedd yn cynnwys sesiynau'n ymwneud ag adfywio cardio-pwlmonaidd ac amddiffyn oedolion a phlant. Canfuom hefyd fod y practis yn rhoi cryn bwyslais ar hyfforddi a datblygu staff yn gyffredinol, ac roedd ffeiliau

datblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant staff dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis a nyrs ddeintyddol, cadarnhawyd bod staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol, ac roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu p'un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd yn ofynnol yn y dyfodol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod gan staff contractau cyflogaeth a bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad deintyddol. Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau bod modd i unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol ymgyswrtu â gwerthoedd ac ethos y practis, ynghyd â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau cleifion.

Gwelsom fod gan y practis dystiolaeth gyfredol o frechiad Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff clinigol.

Dangosodd trafodaethau â staff deintyddol eu bod yn teimlo'n hyderus wrth godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y practis gyda rheolwr y practis. Gwelwyd bod polisi chwythu'r chwiban ar waith hefyd i alluogi staff i godi pryderon ynghylch gofal a diogelwch cleifion, os ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn amlwg mewn perthynas â'r gwasanaeth deintyddol preifat a ddarperir yn y practis, yn unol â gofynion y rheoliadau.

Dangosodd archwiliad o amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y gwasanaeth fod systemau a phrosesau addas ar waith i sicrhau bod offer deintyddol/eraill yn cael eu harchwilio'n brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Deintyddfa Freeman & Rosser yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁵ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Freeman & Rosser

Dyddiad yr arolygiad: 5 Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 8	Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y wybodaeth am gŵynion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008 4. Adran 28(1).	Ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y wybodaeth gyffredol am gŵynion.	Lynsey Hawke	Mae hyn wedi'i roi ar waith.
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 10	Mae'n rhaid i'r practis osod amserlen ar gyfer datblygu'r ystafell ddadheintio.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Datblygu cynlluniau ar gyfer ystafell ddadheintio ganolog.		Diwedd 2016
Tudalen 10	Dylai'r practis ystyried defnyddio'r dull archwilio ar gyfer rheoli heintiau	Memorandwm Technegol	Lawrlwytho a defnyddio'r dull archwilio a gymeradwywyd gan	Lynda Pickersgill	Diwedd mis Medi

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	fel yr awgryma Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1).	Iechyd Cymru 01-05.	Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 bob chwe mis. Parhau i gwblhau archwiliad y Gymdeithas Atal Heintiau hefyd.	Lynsey Hawke	
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r practis wella'i fodd o gadw cofnodion yn y meysydd a amlygwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid cofnodi hanesion cymdeithasol gan gynnwys ysmegu a chymeriant alcohol • Mae angen cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg • Mae angen cofnodi archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg • Rhaid rhoi cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i gleifion cyn dechrau triniaeth • Rhaid cofnodi cydsyniad llafar ar bob ymweliad 	<p>Safon 4.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd</p>	Cwblhau archwiliad radiograffeg misol ac adrodd ynghylch unrhyw gamau heb eu cyflawni mewn cyfarfodydd misol y practis er mwyn rhwystro'r un gwallau rhag digwydd eto. Archwilio hapsampl o gofnodion cleifion mewn tri mis i gadarnhau bod y camau hyn bellach wedi cael eu gweithredu a rhannu canfyddiadau â'r clinigwyr.	<p>Lynsey Hawke</p> <p>Pob clinigwr</p>	Gweithredir ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid cofnodi cyfiawnhad ar gyfer pelydrau-X. 	Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000			
Tudalen 12	Mae'n rhaid i'r practis sefydlu system i wirio'r tymheredd ar gyfer storio cyffuriau yn rheolaidd.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3	Prynu thermomedr a llunio taflen log drafft er mwyn cofnodi gwiriadau tymheredd rheolaidd. Ychwanegu tymheredd at restr wirio ddyddiol.	Lynsey Hawke Tasha Hook	Erbyn diwedd mis Awst 2016
Tudalen 12	Mae angen i'r practis sicrhau bod cyffuriau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn amgylchedd sy'n briodol o lân.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3	Cabinet newydd wedi'i archebu er mwyn storio cyffuriau presgripsiwn.	Lynsey Hawke	Mae hyn eisoes wedi'i roi ar waith.
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	Nid oes angen gwelliannau.				

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Lynsey Hawke

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22 Awst 2016